

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

29 Mai 2020

Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiadau Statudol

Annwyl Adrian a Sophie,

Diolch unwaith eto ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Mai 2020. Roedd yn gyflwyniad ac yn fan cychwyn defnyddiol iawn i'r Senedd ystyried eich adroddiadau statudol pwysig.

Rydym yn cydnabod bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn sail i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru ac mor bwysig yw sicrhau y dylai'r holl waith craffu gan y Senedd gwmpasu popeth.

O'r herwydd, hoffem gymryd amser i fyfyrion ar sut y gall y Senedd gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol a byddwn yn disgwyl nes lansiad ffurfiol eich adroddiadau yn yr hydref cyn bwrw ymlaen â'n gwaith craffu. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb i'ch canfyddiadau ac yn ystyried unrhyw adborth gan randdeiliaid, a fydd yn llywio ein barn.

Er y gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus arwain y gwaith hwn, byddaf yn sicrhau bod holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Rydym am fod yn glir y bydd angen i'r gwaith craffu hwn gynnwys craffu ôl-ddeddfwriaethol ehangach ar y Ddeddf, a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, er bod y Ddeddf ar waith ers 5 mlynedd, ni chafwyd craffu ôl-ddeddfwriaethol ehangach hyd yma



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddArchwilio@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddPAC@senedd.wales

 0300 200 6565

a dim ond y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n craffu ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn flynyddol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori'r Ddeddf ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw rhai cyrff cyhoeddus yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Bydd ein hystyriaeth yn gwyntyllu sut y gallai'r Senedd ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad manwl o'r rhwystrau rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus, fel a ddisgrifir yn eich adroddiadau, a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hynny. Er enghraifft:

- Rôl Llywodraeth Cymru wrth gynnig arweiniad ar weithrediad y Ddeddf.
- Cylchoedd cyllido tymor byr, a sut mae'r rhain yn atal cynnydd.
- A oes gan y cyrff y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt ddigon o adnoddau i roi egwyddorion y Ddeddf ar waith yn ymarferol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu cerrig milltir clir i fesur cynnydd, ac yn ystyried a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol trwy Orchymyn i fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau sylweddol a wynebhir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn sgil pandemig COVID-19. Rydym yn gweld fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn. Mewn sawl ffordd, mae'r pandemig wedi datblygu egwyddorion y Ddeddf trwy esgor ar fwy o weithio ystwyth a hyblyg, teithio llesol, cydweithio a newidiadau cadarnhaol eraill. Gobeithiwn na fydd y newidiadau cadarnhaol hyn yn cael eu colli gyda llacio cyfyngiadau symud COVID-19.

Nodwn y bydd angen ystyried pob agwedd ar fywyd cyhoeddus trwy ddrych COVID-19 wrth i gyrff cyhoeddus weithredu argymhellion eich adroddiadau. Bydd hyn yn rhan sylfaenol o'n gwaith yn yr hydref.



Rydym yn edrych ymlaen at drafod â chi yn nes ymlaen eleni wrth fwrw ymlaen â'n gwaith craffu ar ganfyddiadau eich adroddiadau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline.

Nick Ramsay AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

